



**Dinas a Sir Abertawe**

**Cofnodion Cyfarfod y Panel Llofnodwyr Cyfamod y Lluoedd Arfog**

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 30 Ionawr 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cyngorydd W G Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Sefydliadau â Chynrychiolwyr**

Alyx Baharie	CGGA
Moawia Bin-Sufyan	Care after Combat
Uwchgapten Tracey Brookes	Y Fyddin
Is-gomander Andy Davies	Y Llynges Frenhinol
Pat Dunmore	Cyngor ar Bopeth
Ross Edwards	Fferm Garrison
Asgell-gomander Phil Flower	Y Lleng Brydeinig Frenhinol – Cangen Abertawe
Asgell-gomander Steve Fry	Dirprwy Raglaw
Kirsty Gronow	The Poppy Factory
Tony Hayward	Beicwyr y Lluoedd Arfog
Gareth Jones	Carchar EF Abertawe
Elliott King	Cyngor Abertawe
Sarah Mallaghan	Adran Gwaith a Phensiynau
Nick Marsh	Clwb Cyn-filwyr
Lynn Martin	Dirprwy Raglaw
Sophie Metcalf	Y Llynges
Andrew Price	Dryad Bushcraft
Adrian Rabey	Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig
Emma Reeves	Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol – Plant y Lluoedd Arfog (Gorllewin Cymru)
Paul Smith	Veterans RV
Stephen Sullivan	Hafal
Kelly Walker	The Poppy Factory
Capten Huw Williams	Sgwadron 157
Victoria Williams	GIG Cymru i Gyn-filwyr

**Swyddogion**

Gareth Borsden	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
David Price-Deer	Rheolwr Digwyddiadau Arbennig
Bethan Denny	Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog
Spencer Martin	Cydlynnydd Comisiynu'r Trydydd Sector a Chronfeydd Ymddiriedolaeth
Natalie McCombe	Cydlynnydd Ardal Leol

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Louise Fleet, Govier, Debbie Hamer, Hinkin, Huxtable-Thomas a/ac Yasmin Todd

---

**17 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim.

**18 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y panel a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2022 fel cofnod cywir.

**19 Prosiect Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol.**

Dywedodd Bethan Dennedy fod Dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog wedi dod i rym ar 22 Tachwedd 2022 ac mae bellach yn gyfraith.

Mae'n anodd mesur sut effaith y bydd yn ei chael yn gyffredinol ar hyn o bryd; gellir dod o hyd i ganllawiau drwy'r ddolen isod:

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/1128195/Statutory\\_Guidance\\_-\\_Version\\_published\\_as\\_v1\\_-\\_Welsh.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1128195/Statutory_Guidance_-_Version_published_as_v1_-_Welsh.pdf)

Amlinellodd y data cychwynnol a dderbyniwyd o'r cyfrifiad diweddar sy'n dangos bod gan tua 4.5% o'r boblogaeth yn Abertawe, Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr gysylltiadau â'r lluoedd arfog, sy'n cyfateb yn fras i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae'r rownd bresennol o grantiau'r Sefydliad Cyn-filwyr yn cau ar 6 Chwefror - <https://www.veteransfoundation.org.uk/apply-for-a-grant/>

Cynhelir diwrnod y Lluoedd Arfog 2023 ar 23 Mehefin ac mae arian cyfatebol Digwyddiadau'r Lluoedd Arfog ar gael ar y wefan. <https://www.armedforcesday.org.uk/>

Amlinellodd fod dyfais cyfieithu am ddim ar gael i elusennau - Helo Blod - <https://businesswales.gov.wales/heloblod/cy/helo-blod>

**20 Diweddariadau gan Y Weinyddiaeth Amddiffyn.**

Y Fyddin

Dywedodd y Capten Huw Williams fod cyfnod y Nadolig wedi bod yn weddol dawel, ond rydym wedi gweld rhai o'n milwyr wrth gefn yn symud i gefnogi gweithgareddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

Mae'r Cyfarfod Cymorth Milwrol nesaf gyda'r Arglwydd Faer, lle byddwn yn edrych ar ddigwyddiadau sydd i ddod wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun 11 Chwefror. Dyma lle'r ydym yn edrych ar y cynllun i gefnogi digwyddiadau yn y dyfodol, bydd y canlynol ymysg y meysydd i'w trafod:

Mis y Plentyn Milwrol – Ebrill 23. Digwyddiad a drefnir yn Canolfan y Fyddin wrth Gefn y Grange ar gyfer plant milwyr ar 25 Ebrill 2023, y gallai fod mwy na 160 o bobl ifanc yn bresennol ynddo. Y nod yw bod y 3 gwasanaeth yn bresennol yn ogystal ag amrywiaeth o sefydliadau eraill.

Coroni'r Brenin – 6 Mai 2023, yn aros am gyfarwyddiadau gan Swyddfa'r Arglwydd Raglaw ynglŷn â beth fydd hyn yn ei olygu, posibilrwydd o

ddigwyddiad yn y Santes Fair. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol ynghylch y posibilrwydd o orymdaith drwy ganol y ddinas, ond roedd costau cau'r ffyrdd yn ymddangos yn afresymol.

Diwrnod/Wythnos y Lluoedd Arfog – 19-25 Mehefin 2023 – 19 Mehefin yng Nghastell-nedd a Phort Talbot a chynllunnir y digwyddiad ar gyfer dydd Sadwrn 24 Mehefin yn Abertawe

Sioe Awyr Genedlaethol Cymru - 30 Mehefin - 2 Gorffennaf 2023, mae byrddau ar gael ar gyfer grwpiau/elusennau yn y babell fawr.

Rydym hefyd yn ymgysylltu â grwpiau lleol eraill, gan gynnwys grŵp menywod Asiaidd er mwyn eu briffio ar yr hyn y mae Canolfan y Fyddin wrth Gefn yn ei olygu a beth yw ein rôl. Mae hyn er mwyn egluro'n rôl.

Diolchodd i'r Cynghorydd Wendy Lewis am yr help a'r cymorth yr oedd hi wedi'u darparu'n bersonol i un o'n teuluoedd gwasanaeth. Gwnaeth ei gweithredoedd atal sefyllfa anodd rhag gwaethygu'n fawr.

### Y Llynges

Rhoddodd yr Is-gomander Andy Davies ddiweddariad o'i wasanaeth a oedd yn cynnwys bod adran Tawe'n parhau i weithredu o dŷ John Chard a'i bod yn gobeithio cynyddu ei niferoedd wrth symud ymlaen.

Bydd adran Tawe'n darparu cymorth i HMS Cambria yn ei ddigwyddiad Rhyddid y Ddinas yng Nghaerdydd ym mis Mawrth.

Dywedodd fod cadetiaid môr Abertawe'n cynllunio ar gyfer blwyddyn arall o gystadlu a fydd, gobeithio, mor llwyddiannus â'r llynedd, ac y byddant hefyd yn cymryd rhan eto yn y Sioe Awyr, a oedd yn llwyddiannus iawn y llynedd.

Diolchodd i'r Fyddin am y defnydd o'r cyfleusterau yn y Grange gan y cadetiaid yn barod am gystadleuaeth drilio ar 19 Chwefror.

### RAF

Amlinellodd yr Asgell-gomander Steve Fry ei fod yn rhan o Sgwadron 614 yng Nghaerdydd ond bod ganddo filwyr wrth gefn ar draws de Cymru. Dywedodd fod cadw milwyr wrth gefn ar ôl COVID yn profi'n broblem fel gyda gwasanaethau eraill.

Mae recriwtio'n parhau i fod yn ffocws mawr wrth symud ymlaen, fel y gwasanaethau eraill.

Amlinellodd, o ran ymfyddino a phobl sy'n cefnogi'r llw rheolaidd o bob rhan o'r 614 o ardaloedd cyfrifoldeb Sgwadron, mae yna filwyr wrth gefn sydd fel arfer yn cael eu cyflogi yn yr ardal yn eu cymhwyster sifil, sy'n cael eu defnyddio ar weithrediadau ar Ynys Cyprus, Ynysoedd Falkland a gorsafoedd cefnogol o amgylch y DU.

## **21 Fforwm y Lluoedd Arfog Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**

Dywedodd Victoria Williams fod 31 o bobl wedi cael eu cyfeirio at GIG Cymru i Gyn-filwyr dros y 3 mis diwethaf, ond yn anffodus mae un therapydd yn llai gan y gwasanaeth ar hyn o bryd, felly mae hyn yn amlwg wedi cael effaith ar yr amser

triniaeth, sef tua 5 mis. Er hynny, mae'r asesiadau cychwynnol yn dal i gael eu cynnal mewn tua 3 wythnos.

Cynhelir cyfarfod nesaf Fforwm Lluoedd Arfog BIPBA ar 9 Mawrth, ac mae croeso i bob aelod o'r panel fod yn bresennol.

Amlinellodd ei bod bellach wedi gwneud cyswllt ardderchog yng Ngharchar Abertawe, a'i bod wedi cynnal ymweliad cychwynnol yno, a byddai hefyd yn mynychu'r cyfarfod cyn-filwyr nesaf yno hefyd. Dylid canmol y gwaith a wneir yn y carchar i gefnogi cyn-filwyr.

Dywedodd fod y treial ar-lein/wyneb yn wyneb ar gyfer EMDR wedi dechrau, a bod 2 o bobl wedi cael eu cyfeirio hyd yma, ac roedd hi'n dal i chwilio am wirfoddolwyr ar gyfer y treial.

## **22 Cefnogi Disgyblion o Deuluoedd Gwasanaeth.**

Nododd Emma Reeves ei bod wedi cymryd yr awenau yn ddiweddar i gyflenwi dros gyfnod mamolaeth Yasmin Todd a'i bod yn edrych ymlaen at weithio gydag aelodau'r panel yn y dyfodol.

Amlinellodd ei chefnidir personol a'i chysylltiadau â'r Lluoedd Arfog.

## **23 Diweddariad gan Aelodau'r Panel.**

### Veterans RV

Amlinellodd Paul Smith fod y grŵp bellach wedi symud o Lolfa'r Pabïau i Gaban y Sgowtiaid a'r Geidiaid yn Bryn Road oherwydd problemau gyda pharcio ac mae bellach ar agor ar nos Fawrth rhwng 6pm ac 8pm.

Mae'r grŵp hefyd wedi dechrau rhai gwersi syrffio/nofio mewn dŵr oer yn Caswell yn ddiweddar, ac mae cynlluniau ar waith i gyflwyno gwersi gitâr a dechrau grŵp therapi celf.

### Adferiad Recovery

Amlinellodd Steve Sullivan nad yw'r grŵp cymheiriaid newid cam bellach yn cymryd unrhyw atgyfeiriadau pellach, gan fod y cyllid ar gyfer y ffrwd honno'n dod i ben a bydd yn gorffen ym mis Mawrth.

Byddant yn parhau i frysbenneu ac mae rhywun yn gweithio ar y llinellau ffôn ar gyfer brysbenneu ond nid ydynt yn cymryd unrhyw atgyfeiriadau fel roeddent yn ei wneud.

Amlinellodd fod Finola Pickwell wedi gorffen gyda'r tîm llwybr strategol cyn y Nadolig. Mae gennym reolwr newydd bellach sef Neil Lawman a oedd yn y tîm mentor cyfoedion gynt. Bydd V4P yn parhau ac ariennir hynny tan ddiwedd y flwyddyn. Byddaf yn parhau i weithio gyda'r garfan cyn-filwyr nad yw wedi'i hariannu a fydd yn cynnwys y llwybrau cadarnhaol, prosiectau y mae'r cyllid bellach wedi dod i ben ar eu cyfer a phrosiectau newydd hefyd.

### Dryad Bushcraft

Amlinellodd Andrew Price ei fod yn rhedeg cwmni buddiant cymunedol o'r enw Dryad Bushcraft, sy'n arbenigo mewn cyrsiau crefft y goedwig a goroesi ar benrhyn Gŵyr.

Nododd fod gan y cwmni rywfaint o gyllid oddi wrth y cynllun datblygu gwledig sydd ar gael, ond mae'n benodol iawn i ardal Gŵyr ac mae'n rhaid iddo gael ei wario erbyn diwedd mis Chwefror. Rydym yn gobeithio cynnal ambell sesiwn, i gyn-filwyr o leiaf ac mae'n rhan o brosiect peilot sy'n anelu at nodi manteision presgripsiynu cymdeithasol yn yr awyr agored a therapi natur.

Os oedd gan aelodau'r panel gyn-filwyr y gallent gyfeirio at y sesiynau o bosib, gofynnodd iddynt gysylltu ag ef.

Ceir rhagor o wybodaeth yn <https://www.dryadbushcraft.co.uk/>

### Bwrdd Hyfforddiant Prydeinig

Cyfeiriodd Adrian Rabey at y digwyddiad diogelwch llwyddiannus a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Village ym mis Hydref ar y cyd â Llu Ffiniau'r DU sy'n ceisio recriwtio cyn-filwyr i'r swyddi gwag sylweddol sydd ganddynt ar draws y wlad.

Amlinellodd eu bod wedi derbyn grant arall gan y cyngor, yr wyf yn ddiolchgar iawn amdano, sydd wedi prynu dyfeisiau a chlustffonau realiti rhithwir, yr ydym wedi bod yn eu defnyddio ar gyfer cyn-filwyr o fewn y gymuned na allant fynd i'r ganolfan i wneud cyrsiau hyfforddi etc., a bydd modd iddynt fynd i gyfweliadau bellach.

Felly rydym wedi bod yn eu dosbarthu a'u defnyddio, ac mae hynny wedi datblygu'n brosiect mor llwyddiannus rydym wedi adeiladu ein porth realiti rhithwir ein hunain, y gall y gymuned gyfan bellach ei ddefnyddio, ac mae hefyd yn cynnwys porth i'r gwasanaeth sifil ac mae ein rhaglen Balch, sy'n ceisio cael cyn-filwyr ac aelodau o'u teulu i gyflogaeth gyda'r Gwasanaeth Sifil, ar gael o hyd ac mae'n cael ei ariannu'n llawn yng Nghymru.

Soniodd hefyd am gwrs rheoli cyfleusterau newydd y mae arian wedi dod ar gael ar ei gyfer ledled Cymru, sydd unwaith eto'n cael ei ariannu'n llawn ac sydd ar gael i'r rheini sy'n gadael y gwasanaeth, cyn-filwyr a'u teuluoedd.

Cyfeiriodd at y cysylltiadau a ddatblygwyd gyda Charchar Berwyn sydd hefyd yn gysylltiedig â'r rhaglen Balch, ac mae'n chwilio am addysgwyr, swyddogion carchardai a staff gweinyddu. Mae yna hefyd gynnig o grant adleoli hyd at £10,000 i unrhyw un sy'n cael swydd.

Manylodd hefyd ar rownd arall o hyfforddiant diogelwch llw'r ffiniau sydd ar gael tan fis Gorffennaf ar y cyd â Choleg Sir Gâr trwy gyllid Llywodraeth Cymru.

### Beicwyr y Lluoedd Arfog

Dywedodd Tony Hayward fod y grŵp ar agor i unrhyw gyn-filwyr sy'n dymuno ymuno â nhw neu fynychu digwyddiad. Amlinellodd fod y Cadeirydd wedi mynychu un o'u digwyddiadau llwyddiannus y llynedd.

Nododd fod y grŵp bellach wedi rhoi gwerth £700k o grantiau yn genedlaethol i gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Cyfeiriodd Natalie McCombe at yr arian grant a dderbyniwyd ganddynt y llynedd a helpodd i gynnal y digwyddiad 'Boyo Bash' i feicwyr yr haf diwethaf. Roedd y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant mawr a chodwyd dros £3,000 tuag at yr elusen. Cynhelir y digwyddiad eleni ym mis Awst ac roedd croeso i bob aelod o'r panel fod yn bresennol.

### Cadetiaid y Llu Awyr Brenhinol/ Y Lleng Brydeinig Frenhinol

Nododd Phil Flower fod gan y Lleng Brydeinig Frenhinol nifer fawr o ddigwyddiadau eleni yn Abertawe, a fydd yn cynnwys yr ŵyl goffa a'r ardd goffa newydd. Mae gennym 4 cwmni nawdd a fydd yn rhoi £2,000 i osod yr ardd yn agos at Westy Morgans.

Dywedodd fod pwyllgor Cymdeithas y Llu Awyr Brenhinol yn Abertawe'n tyfu eto ac mae gennym 18 o aelodau erbyn hyn, diolchodd i Huw Williams am ei gefnogaeth a'r defnydd o'r Grange yn West Cross i gynnal cyfarfodydd. Nododd fod gan y grŵp daith i Amgueddfa Sunderland yng Ngorllewin Cymru eleni a threfnwyd taith i RAF Brize Norton a'r Goedardd Genedlaethol.

Amlinellodd fod y Cadetiaid hefyd yn gwneud yn dda iawn ar draws De Cymru ar hyn o bryd gyda 560 o gadetiaid a 180 o staff ar draws yr ardal, a'r nod a'r ysgogiad yw cynyddu a recriwtio i'r lefelau hyn eto. Amlinellodd y gweithgareddau amrywiol sydd ar gael i'r cadetiaid megis caiacio, saethyddiaeth, mynydda a mynd i wersyll yng Nghanolfan San Madog eto ym mis Mai. Mae'r cadetiaid hefyd yn ceisio cynnwys a defnyddio'r profiad o gyn-filwyr fel rhan o raglen a phrofiadau'r cadetiaid a hefyd gynnwys y lluoedd cadetiaid eraill yn eu gweithgareddau.

Dywedodd fod 2023 yn nodi 80 mlynedd ers Chwalwyr yr Argae ac mae rhywfaint o drafodaeth ynghylch gorymdaith i nodi'r achlysur.

### Carchar EF Abertawe

Dywedodd Gareth Jones fod ganddynt 11 o garcharorion sy'n gyn-filwyr ar hyn o bryd sy'n cael eu hyfforddi fel mentoriaid cyn-filwyr ac yn helpu cyd-garcharorion sy'n gyn-filwyr gyda bywyd a thasgau dyddiol.

Cynhelir y cyfarfod cyn-filwyr misol nesaf yn y carchar ar 17 Chwefror a byddai croeso i unrhyw aelodau o'r panel sydd â diddordeb bod yn bresennol.

Nododd y cysylltiad sy'n cael ei ddatblygu gyda chydweithwyr yng Ngharchar EF y Parc a fydd yn ceisio adeiladu ar y mentrau sydd ar waith yn y ddau garchar ar hyn o bryd, er budd y carcharorion sy'n gyn-filwyr.

### Cydlynwyr Ardaloedd Lleol

Manylodd Natalie McCombe ar ei rôl fel CALI ar gyfer Gŵyr, ac amlinellodd fod CALI ar gyfer pob ward etholiadol yn Abertawe, ac mai prif rôl CALI yw cefnogi'r gymuned leol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn <https://www.abertawe.gov.uk/cydllynuardalleol>

### Hwb Cyn-filwyr Abertawe

Adroddodd yr Uwchgapten Tracey Brooks ar ran yr hwb gan nad oedd 2 o'u haelodau yn gallu bod yn bresennol heddiw a nododd fod yr hwb bellach ar agor yn San Helen rhwng 11am ac 1pm ar ddydd Mawrth a 10am a 2pm ar ddydd Sadwrn.

Mae'r hwb hefyd bellach yn aelod o ganolfannau galw heibio Cymdeithas Gwasanaeth ASDIC ac mae wedi'i gofrestru fel man cynnes a diogel i'r gymuned ei ddefnyddio.

Amlinellodd lwyddiant y digwyddiad a gynhaliwyd ar Noswyl Nadolig a fynychwyd gan dros 40 o gyn-filwyr a'u teuluoedd.

Nododd ei bod yn mynd i'w chyfarfod panel cyntaf heddiw ac yn edrych ymlaen at weithio gydag aelodau'r panel wrth symud ymlaen a mynd i gyfarfodydd yn y dyfodol. Nododd ei bod yn ymwybodol o'r gwaith rhagorol sy'n cael ei wneud yn y carchar fel yr amlinellwyd yn gynharach ac roedd ei mab wedi cymryd rhan yn y diwrnod rygbi i blant y gwasanaeth, a oedd yn ardderchog.

Nododd ei bod yn gweithio yng nghanen weithredol y Fyddin, sy'n delio â'r holl achosion cyfreithiol parhaus o weithrediadau etifeddiaeth fel yng Ngogledd Iwerddon. Felly mae gennym ddiddordeb mewn cyn-filwyr a'u cynorthwyo, a chyfeiriodd at y bil parhaus a fydd, os daw'n gyfraith, yn cael goblygiadau i gyn-filwyr a wasanaethodd mewn lleoliadau fel Gogledd Iwerddon, Affganistan ac Irac.

### Fferm Garrison

Nododd Ross Edwards, gyda'r cyfleuster sydd ganddynt mae cyfle gwych i gysylltu â rhagnodi gwyrdd a'r presgripsiynu cymdeithasol fel y trafodwyd yn gynharach yn y cyfarfod. Dylai unrhyw un sy'n dymuno defnyddio'r cyfleuster gysylltu â nhw.

### Clwb Cyn-filwyr

Amlinellodd Nick Marsh fod y clwb wedi ehangu ei sesiynau galw heibio i ddwy sesiwn yr wythnos bellach yn ystod y dydd ar ddydd Llun ac ar nos Fercher.

Rydym hefyd yn cynnal cwrs cadw gwenyn.

Dylai'r encilfa ar ben y bryn, yr ariannwyd yn hael iawn gan Gyngor Abertawe, fod yn weithredol yn y gwanwyn a'r bwriad yw gweithredu hynny dair gwaith yr wythnos ar ddydd Mawrth, Mercher a Gwener rhwng 11am a 3pm.

Unwaith eto dylai aelodau'r panel sy'n dymuno dod i'r sesiynau neu ddefnyddio'r cyfleuster pan fydd ar agor gysylltu â nhw.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.08 pm